

Teitl:	Swyddog Cynllunio
Lleoliad:	Gweithiwr Ystwyth
Cyfarwyddiaeth:	Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Swydd Rhif:	BG00850
Cyflog:	Gradd 07 (£34,834 - £38,223 y flwyddyn)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Contract:	Cyfnod penodol o 12 mis

Crynodeb Swydd

Mae cyfle newydd wedi dod ar gael o fewn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Swyddog Cynllunio i ymuno â'r tîm Adfywio a Datblygu.

Byddai angen i ddeiliad y swydd brosesu llwyth achos eang o geisiadau cynllunio a cheisiadau eraill, gwaith apêl a chydlynu gyda'r Adran Gorfodaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bach ond brwdfrydig a bydd angen iddo gyfrannu'n gadarnhaol at ddarparu gwasanaethau cynllunio yn y Fwrdeistref.

Hysbyseb Lawn

Mae prif gyfrifoldebau'r swydd yn cynnwys:

- Prosesu'r ystod llawn o geisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig, yn cynnwys paratoi argymhellion ac adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio.
- Paratoi holiaduron apêl a datganiadau apêl cynllunio.
- Cynorthwyo a chydlynu gyda'r Tîm Gorfodaeth i sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth cynllunio.
- Ymateb yn brydlon ac yn bwyllog i ymholiadau cynllunio gan y cyhoedd, datblygwyr, Aelodau etholedig, Adrannau eraill y Cyngor a mwy.
- Mynychu cyfarfodydd yn achlysurol o Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau perthnasol.
- Goruchwylio'r Technegydd Cynllunio wrth ddilysu a chofrestru ceisiadau cynllunio (ac eraill).
- Cynorthwyo Arweinydd y Tîm wrth gyflwyno'r gwasanaeth cynllunio ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd eu hangen yn rhesymol gan y rheolwyr.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gael profiad o weithio mewn amgylchedd datblygu neu gysylltiedig, bod ag addysg i safon Lefel A (neu gyferth), bod yn gyfarwydd â

thechnoleg gwybodaeth, cadw sgiliau rhyngbersonol da a medru dangos profiad mewn rheoli ei lwyth gwaith ei hun.

Mae hefyd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gael trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Dyddiad Cau: 11/07/2024 – 12:00am, canol nos

Dyddiad Cyfweiliadau: 24/07/2024